**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 2il Tachwedd 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, D. Simmons a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 30. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Cyfeiriodd y Cadeidydd at farwolaeth sydyn a thrist y Cynghorydd Brian Blakeley a darllenodd yn uchel rai geiriau yr oedd wedi eu hysgrifennu am Brian.

Ar ran yr holl gynghorwyr a’r staff, cyflwynodd y Cadeirydd gydymdeimlad didwyll i wraig Brian, Evelyn, ac i’r Cynghorydd Mrs Michelle Blakeley-Walker a gweddill teulu Brian a’i ffrindiau, cyn arwain y cyfarfod mewn munud o dawelwch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mrs J. M. Evans.

## 31. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL/MAI 2022

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw’r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o’r Nwyddau a’r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1503 | Shire Leasing | 337.33 | System ffôn Avaya – raliad prydles 3 o 4 2022/23 |
| 1504 | BT | 523.18 | Rhentu ffôn a thaliadau |
| 1505 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Ad-daliad benthyciad SC2 2 o 3 ar gyfer 2022/23 |
| 1506 | HSBC | 8.00 | Taliadfau banc 17eg Awst – 16 Medi 2022 |
| 1508 | Gunsmoke Communications | 1,280.00 | Ffi reoli Medi 2022 |
| 1509 | CthEF | 2,936.38 | Didyniadau PAYE Medi 2022 |
| 1510 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Medi 2022 |
| 1511 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,483.48 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Hydref 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl. |
| 1419 | Siop Cngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 5 o 12 |
| 1518 | Tesco Mobile | 21.99 | Yswiriant ar gyfer 3 ffôn a thaliad cyntaf 1 ffôn |

| | Cyfanswm taliadau | 50,619.65 | |
|---|---|---|---|

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 86.30 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 28.87 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 28.87 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 28.87 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 28.87 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£201.78** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 32. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1519 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflgores – Gorffennaf - Medi 2022 | 97.80 |
| 1520 | Y Cyngh J. McAlpine | Treuliau dirprwy faer Hydref 2022 | 28.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£125.80** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 33. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL

Ymhellach i gofnod rhif 62 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Hydref 2021, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ymgynghoriad diwygiedig gan Gomisiwn Ffiniau Cymru (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau bod ymgynghoriad wedi ei wneud gyda'r Cyngor Tref ar ddiwedd 2021 a bod sylwadau wedi eu gwneud (4D o'r dogfennau a ddosbarthwyd), yn gofyn am gael cysylltu'r Rhyl gyda Phrestatyn ac nid Bae Colwyn fel y cynigiwyd, gan nad oedd gan y Rhyl unrhyw gysylltiadau naturiol gyda'r fan honno.

Mae'r ymgynghoriad diwygiedig yn dweud mai'r etholaeth newydd ar gyfer yr ardal hon fydd Gogledd Clwyd a bod nifer yr etholwyr yn yr ardal wedi ei ostwng rhyw ychydig, ond y byddai'r Rhyl yn cael ei uno gyda Bae Colwyn.

Mynegodd yr aelodau eu siom ynglŷn â sut roedd y ffiniau newydd yn cael eu llunio, gan anwybyddu, yn ymddangosiadol, farn pawb yr ymgynghorwyd gyda nhw ar draws y maes gwleidyddol.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dfref yn ailgyflwyno ymateb blaenorol y Cyngor Tref.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**34. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, fel un o dri cynrychiolydd y Cyngor Tref a benodwyd ar y Gymdeithas, bod y Cyngor Tref wedi ei dadogi i'r gymdeithas am fwy na 26 o flnyddoedd a bod cynrychiolwyr bob amser yn mynychu cyfarfodydd chwarterol y gymdeithas.

Mae 36 o aelodau cyngor lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru a gall unrhyw aelod o gyngor tref gyflwyno materion i'w rhoi ar y rhaglen i'w trafod.

Yn y cyfarfod chwarterol diwethaf, roedd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sôn am broses bidio newydd ar gyfer cyflenwi cynllun ar gyfer Ysbyty Frenhinol Alexandra yn y Rhyl.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield bod hyn wedi dod fel syndod gan fod cynlluniau wedi eu gwneud yn 2008 ar gyfer adran gofal cleifion arhosiad hir ac adran fechan Damweiniau ac Argyfwng.

Hefyd, bod arian i fod ar gael ar gyfer darpariaeth ddeintyddol ychwanegol GIG ledled Sir Ddinbych, a nodi mai Sir y fflint oedd â'r ddarpariaeth leiaf.

Mater arall a drafodwyd fel eitem ar wahan ar y rhaglen oedd Porthladdoedd Rhydd, sef parthau economaidd arbennig a ddynodwyd gan y Llywodraeth lle nad yw rheolau tollau fel trethi yn berthnasol nes bydd nwyddau wedi gadael y parth, i annog gweithgareddau economaidd ger porthladdoedd llongau neu feysydd awyr.

Roedd Llywodraeth y DU i gyflwyno 10 Porthladd Rhydd ledled y DU ac roedd Llywodraeth Cymru yn gwneud achos dros gael un ar Ynys Môn o gwmpas Caergybi.

Trafodwyd y cyfyngiad cyflymder 20mya ym mhob pentref a thref yng Nghymru, a'r Dreth Twristiaeth i'w chyflwyno y flwyddyn nesaf.

Pob un yn faterion pwysig y teimlai'r Cynghorydd Butterfield y dylai'r Cyngor Tref eu hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref:*

*(i) yn gwahodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gweinidog Llywodraeth Cymru perthnasol i gyfarfod yn y dyfodol i esbonio'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas ag Ysbyty Frenhinol Alexandra yn y Rhyl.*

*(ii) ychwanegu Porthladdoedd Rhydd, y cyfyngiad cyflymder 20mya a'r dreth twristiaeth / lefi gwyrdd i raglen cyfarfod yn y dyfodol.*

**35. EITEM YCHWANEGOL: PUM DIWRNOD PARCIO AM DDIM**

Dywedodd Clerc y Dref bod tri Chynghorydd yn garedig wedi cynnig dodi a thynnu arwyddion ar y peiriannau tocynnau ym meysydd parcio'r Twr Awyr,

Canolog, Gorsaf Reilffordd a Neuadd y Dref ar gyfer y pum diwrnod parcio am ddim (dydd Mawrth 2fed – Sadwrn 24ain Rhagfyr), a gofynnodd am wirfoddolwr arall ar gyfer y maes parcio ar West Kinmel Street.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd A. R. James yn gwirfoddoli ar gyfer y maes parcio yn West Kinmel Street.*

**36. EITEM YCHWANEGOL: CHRISTMAS POPS**

Dywedodd Clerc y Dref bod Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig wedi cynnig nifer cyfyngedig o docynnau i gynghorwyr ar gyfer y digwyddiad am ddim yn Theatr y Pafiliwn ar ddydd Sul 27ain Tachwedd, a gofynnodd i'r aelodau adael iddo wybod faint yr hoffent eu cael, os o gwbl, cyn gynted ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**37. EITEM YCHWANEGOL: SUL Y COFFA**

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau i ymateb i ebost y Swyddog Dinesig a Gweinyddol yn eu gwahodd i wasanaethau'r diwrnod, er mwyn galluogi cadw seddau a threfnu lefel briodol o luniadeth.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y cais.*

**38. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**39. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd - | 28ain Gorffennaf 2022 - | Rhifau Cofnod 1 – 10 |
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - | 5ed Medi 2022 - | Rhifau Cofnod 7 - 10 |
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - | 10fed Hydref 2022 - | Rhifau Cofnod 11 - 18 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

**40. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ……………………